**Testun hygyrch ar gyfer Coridor Bysiau, Beicffordd 2 a Pharthau Rheoli Parcio Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd - Pecyn Gwybodaeth**

## Sleid 1

Teitl y cyflwyniad: *"Coridor Bysiau, Beicffordd 2 a Pharthau Rheoli Parcio Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd"*

Is-deitl: *"Pecyn Gwybodaeth"*

Dangosir logo Trafnidiaeth Esblygol Caerdydd yn yn y canol i'r dde a dangosir Logo Cyngor Caerdydd yn y canol i'r dde.

Dangosir y wybodaeth uchod ar sleidiau 1 i 11 er gyda'r logos yn llai o ran maint ar ben y sleidiau.

Dangosir delwedd ar waelod y sleid o olygfa stryd ddarluniadol yn dangos ceir, tacsis, beicwyr a cherddwyr gyda chefndir o olygfa parc.

Mae'r testun o dan y ddelwedd yn darllen: *"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."*

## Sleid 2

Mae'r testun ar hyd ochr chwith y sleid yn darllen:

*"Mae'r Cyngor yn datblygu'r y Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd, sy'n cynnwys Coridor Bysiau'r Dwyrain, Beicffordd 2 (BFf2) a Pharthau Rheoli Parcio (PRhP).*

*Nod y cynnig coridor trafnidiaeth hwn yw cysylltu Canol Dinas Caerdydd â Ffin Sir Casnewydd a'r datblygiadau busnes ar Rodfa'r Gypreswydden. Gellir dod o hyd i wybodaeth am orsafoedd trên arfaethedig ar hyd y coridor hwn ar-lein.*

*O ran BFf2, mae'r Cyngor wrthi'n gweithio ar alinio llwybrau ac yn ceisio datblygu cynigion a nodi unrhyw gyfleoedd eraill i wella hygyrchedd i gerddwyr, beiciau a bysus ar hyd y coridor.*

*Gellir gweld lluniadau dangosol wedi'u symleiddio yn y ddogfen hon sy'n dangos yr aliniad arfaethedig a'r cynigion lefel uchel sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.*

*Dangosir aliniad arfaethedig y coridor yn y cynllun ar ochr dde'r dudalen hon."*

Dangosir cynllun alinio coridor lefel uchel ar ochr dde'r sleid. Mae'n dangos aliniad y llwybr fel llinell goch o Ganol y Ddinas, ar hyd Heol Casnewydd i ffin y sir. Dangosir allwedd sy'n darllen: *"Aliniad Coridor / BFf2" – gyda llinell solet goch, "Datblygiadau'r Cam i Rodfa'r Gypreswydden" – gyda llinell doredig lelog, "Llwybr RhBC 88" gyda llinell solet oren, "Cam i Rodfa'r Gypreswydden" - gyda llinell borffor solet, "Dolen fysiau Heol Lydan/Heol Casnewydd" gyda llinell doredig goch a llinell doredig werdd yn y drefn honno, "Gorsafoedd trên arfaethedig* (*Yn amodol ar ganiatâd cynllunio)" - gyda symbol trên coch, "Ffin y sir" – gyda llinell doredig ddu, a "Dolen fysiau gyfredol" – gyda llinell las solet.* Dangosir 'N' i gynrychioli saeth tua'r gogledd, a ddangosir ar bob cynllun.

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: *"Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddogfen hon, ynghyd ag adran Cwestiynau Cyffredin ar ddiwedd y ddogfen."*

Ar waelod pob sleid mae testun sy'n darllen*, "Mae'r lliwiau at ddibenion eglurhaol yn unig"* a lle dangosir cynlluniau mae'n darllen, *"Nid yw'r cynllun i raddfa".*

**Sleid 3**

Mae'r testun ar hyd ochr chwith y sleid yn darllen:

*"Prif amcanion y cynllun yw: (dangosir mewn blwch testun a phwyntiau bwled)*

- *Annog newid moddol o geir preifat i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gwella'r seilwaith i fysiau a darparu cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn unol â* ***Phapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd****.*
- *Datblygu llwybr beicio o ansawdd uchel o Ganol Dinas Caerdydd i'r Dwyrain o Gaerdydd (Caerdydd i Gasnewydd), trwy Heol Casnewydd - fel yr argymhellwyd gan* ***Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru***.
- *Cymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir i gerddwyr.*
- *Chysylltu â Beicffordd 1 a Llwybr Beicio Parc y Rhath."*

O dan y blwch testun ar ochr chwith y sleid mae testun pwyntiau bwled pellach yn darllen,

*"Mae'r 'Camau'r' llwybr fel a ganlyn:*

- *Cam 1 - Ardal Canol y Ddinas*
- *Cam 2 - Ardal Heol Lydan*
- *Cam 3 - Heol Lydan i Ffordd y De / Heol Newydd*
- *Cam 4 - Ffordd y De i Fryn Hyfryd*
- *Cam 5 - Bryn Hyfryd i Rodfa'r Gypreswydden*
- *Cam 6 - Rhodfa'r Gypreswydden a Chyswllt Casnewydd"*

Cyflwynir cynllun alinio llwybr sy'n dangos y gwahanol Gamau ar ochr dde'r sleid. Mae'n dwyn y teitl *"Cynllun alinio llwybr yn dangos y gwahanol Gamau"*. Rhennir y llwybr yn chwe cham wedi'u labelu: *"Ardal Canol y Ddinas (Cam 1)", "2- Ardal Heol Lydan", "3- Heol Lydan i Ffordd y De", "4- Ffordd y De i Fryn Hyfryd", "5- Bryn Hyfryd Rodfa'r Gypreswydden" a "6- Cyswllt â Chasnewydd a Rhodfa'r Gypreswydden".* Mae'r Allwedd yn darllen *"BFf2 / Blaenoriaeth bysiau – llinell doredig goch a llinell solet goch" a "Blaenoriaeth bysiau allan o'r ddinas – llinell doredig werdd"*. Mae'r llinellau gwyrdd a coch yn berthnasol i Gam 2 - Heol Lydan yn unig.

**Sleid 4**
Is-deitl: “*Cam 1 – Ardal Canol y Ddinas"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *“Bydd y gwelliannau yn Ardal Canol y Ddinas yn rhoi cyfle i gysylltu â llwybrau gwasanaeth bws lleol a llwybrau beicio eraill yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys darparu buddion allweddol fel hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol i ysgolion, cyflogaeth, cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.*

*Rydym yn datblygu beicffordd barhaol yn lle'r llwybr beicio dros dro presennol ar Boulevard De Nantes a Heol Casnewydd. Bydd hyn yn cynnwys gwell mesurau teithio llesol a mesurau blaenoriaethu bysiau, er mwyn gwella profiad defnyddwyr ac ansawdd y teithiau.*

*Mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn destun profion helaeth a modelu lefel rhwydwaith er mwyn sicrhau bod yr opsiwn gorau posibl yn cael ei ddatblygu."*

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: "Byddwn yn ymgysylltu ymhellach pan fydd manylion ar gael ar gyfer Cam 1."

Cyflwynir cynllun sy'n dangos llwybr cam 1 a'r ddolen fysiau bresennol yn ardal canol y ddinas ar ochr dde'r sleid. Dangosir y llwybr mewn coch ar hyd Boulevard De Nantes a Heol Casnewydd gan ddechrau o Heol y Gogledd a Chastell Caerdydd a gorffen ger Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Dangosir y ddolen fysiau mewn glas ac mae'n cylchu canol y ddinas ger CEF Carchar Caerdydd, Canolfan Dewi Sant, a'r Gyfnewidfa Fysiau. Mae'r allwedd yn darllen *"Alinio Coridor / BFf2 - llinell solet goch"* a *"dolen bws bresennol – llinell solet las"*.

Mae saeth eglurhaol o dan y cynllun yn dangos y cyfeirir at gam 1 ar sleid 4.

**Sleid 5**
Is-deitl: *“Cam 2 - Ardal Heol Lydan”*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Rydym yn datblygu nifer o opsiynau ar gyfer y rhan hon o'r llwybr. Oherwydd cyfyngiadau priffordd o ran coed a lled y ffordd ar Heol Casnewydd, mae Heol Lydan wedi cael ei nodi fel y llwybr mwyaf priodol ar gyfer beicffordd. Fel rhan o'r opsiwn hwn, rhoddir blaenoriaeth i fysus sy’n teithio allan o ganol y ddinas ar Heol Casnewydd a blaenoriaeth i fysus sy’n mynd i mewn i’r ddinas ar Heol Lydan.*

*Er mwyn darparu ar gyfer seilwaith bysiau a newidiadau i'r llwybr beicio, rydym yn adolygu'r ardal ehangach ac yn arbennig Heol Lydan, Stryd Clifton a Heol y Pedair Llwyfen. Gall hyn olygu newidiadau i'r ffordd y mae traffig yn symud o gwmpas yr ardal a pharcio. Mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn destun profion helaeth a modelu lefel rhwydwaith er mwyn sicrhau bod yr opsiwn gorau posibl yn cael ei ddatblygu.*

*Fel rhan o'r gwaith ar opsiynau, rydym hefyd yn gweithio gyda thimau eraill, gan gynnwys Tîm Adfywio'r cyngor, i ddatblygu gwelliannau tir cyhoeddus ar Heol Lydan*

*a Stryd Clifton. Mae'r gwaith hwn yn debygol o fod yn amodol ar sicrhau cyllid priodol."*

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: *"Byddwn yn ymgysylltu ymhellach pan fydd manylion ar gael ar gyfer Cam 2. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ymgysylltiad cymunedol lefel uchel i geisio syniadau, barn ac adborth."*

Dangosir cynllun sy'n dangos aliniad llwybr cam 2 gyda dolen fysiau arfaethedig Heol Lydan/Heol Casnewydd ar ochr dde'r sleid. Dangosir llinell doredig werdd ar gyfer symudiadau bysiau sy'n teithio allan o'r ddinas ar Heol Casnewydd a llinell doredig goch ar gyfer symudiadau bysiau i mewn i'r ddinas ar Heol Lydan. Dangosir symbol beicio sy'n pwyntio i'r ddau gyfeiriad ar Heol Lydan i ddynodi aliniad y llwybr beicio. Dangosir allwedd sy'n cynrychioli hyn.

Mae saeth eglurhaol o dan y cynllun yn dangos y cyfeirir at gam 2 ar sleid 5.

## Sleid 6

Is-deitl: *"Cam 3 - Heol Lydan i Ffordd y De"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Fel rhan o'r strategaeth ddylunio, rydym yn ceisio gweithredu blaenoriaeth bysiau, a fydd yn gwella dibynadwyedd bysiau ac amseroedd teithio.*

*Bydd seilwaith beicio newydd yn cael ei ddarparu ym mhob cam.*

*Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cyffyrdd ar hyd y llwybr hwn ac yn ystyried gwelliannau i gylchfan Ffordd y De. Rydym hefyd yn adolygu'r cyfyngiadau ar ddefnyddwyr teithio llesol wrth Bont Afon Rhymni, ynghyd ag opsiynau gwella cyffordd ar gyfer Heol Newydd.*

*Bydd gwell seilwaith bysus a mesurau teithio llesol yn dod â gwell cysylltedd i ddefnyddwyr i'r parc manwerthu ac ar gyfer cyflogaeth.*

*Bydd cysylltedd yn cael ei wella ymhellach fel rhan o waith integreiddio'r orsaf drenau newydd. Gellir gweld gwybodaeth am orsaf drenau arfaethedig Dwyrain Caerdydd* ***ar-lein***. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol i integreiddio ein cynigion lle bo hynny'n bosibl.

*Bydd cyfleoedd i gysylltu â Beicffordd Parc y Rhath yn cael eu datblygu yn y dyfodol trwy lwybrau fel Heol Marlborough a Heol Albany i gysylltu â Heol Casnewydd."*

Mae testun mewn blwch ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: *"Byddwn yn ymgysylltu ymhellach pan fydd manylion ar gael ar gyfer Cam 3."*

Mae cynllun sy'n dangos llwybr cam 3 fel llinell goch solet rhwng diwedd Heol Lydan a Heol Newydd (ar Heol Casnewydd) a lleoliad gorsaf drenau newydd arfaethedig gyda symbol trên (yn amodol ar ganiatâd cynllunio) ar ochr dde'r sleid. Dangosir allwedd sy'n cynrychioli hyn.

Mae saeth eglurhaol o dan y cynllun yn dangos y cyfeirir at gam 3 ar sleid 6.

## Sleid 7

Is-deitl: *"Cam 4 - Ffordd y De i Fryn Hyfryd"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Bydd y cynllun yn annog newid moddol o geir preifat i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy trwy wella seilwaith bysiau lle y bo'n bosibl, yn ogystal â seilwaith beicio newydd.*

*Bydd y gwelliannau i'r seilwaith yn dod â llawer o fanteision, gan gynnwys buddion iechyd yn sgil gwell ansawdd aer, a chyfleoedd corfforol, meddyliol, lles a chysylltedd. Bydd y mesurau hyn hefyd o fudd i lawer o'r ysgolion a siopau yn yr ardal ac yn annog newid moddol.*

*Bydd cyfleoedd i gysylltu â llwybr beicio Taith Rhymni a lleoliadau allweddol eraill.*

*Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i eiddo heb barcio oddi ar y ffordd a hefyd yr ardal siopa ar ben Bryn Tredelerch ger cyffordd Heol Gwynllŵg.*

*Mae'r cyngor yn datblygu opsiynau dylunio a fyddai'n darparu ar gyfer seilwaith bysiau a beiciau ar hyd Cam 4."*

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: *"Byddwn yn ymgysylltu ymhellach pan fydd manylion ar gael ar gyfer Cam 4."*

Mae cynllun sy'n dangos llwybr cam 4 a ddangosir fel llinell goch solet o Heol Newydd i Fryn Hyfryd ar Heol Casnewydd ar ochr dde'r sleid. Dangosir allwedd sy'n cynrychioli hyn.

Mae saeth eglurhaol o dan y cynllun yn dangos y cyfeirir at gam 4 ar sleid 7.

## **Sleid 8**

Is-deitl: *"Cam 5 - Bryn Hyfryd i Rodfa'r Gypreswydden"*

Mae'r testun ar ochr chwith uchaf y sleid yn darllen: *"Bydd y cam hwn yn darparu cysylltiadau i ysgolion lleol ynghyd â wardiau cyfagos Pontprennau a Phentref Llaneirwg. Mae hefyd yn rhoi cyfle am newid moddol wrth gael mynediad at safleoedd cyflogaeth."*

Is-deitl: Cam 6 – Rhodfa'r Gypreswydden a Chasnewydd

Mae'r testun ar yr ochr chwith yng nghanol y sleid yn darllen*: "Bydd cylchfan Rhodfa'r Gypreswydden yn bwynt cysylltu hanfodol, gan arwain at Sir Casnewydd a'r datblygiadau busnes presennol ac arfaethedig ar Rodfa'r Gypreswydden.*

*Mae'r llwybr yn cyd-fynd â chynigion Cyngor Dinas Casnewydd a bydd yn darparu mesurau blaenoriaeth bysiau a theithio llesol o Ganol Dinas Caerdydd i Ganol Dinas Casnewydd, fel rhan o argymhellion* ***Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru****.* Bydd cyfle hefyd i gysylltu â Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol."

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: "Byddwn yn ymgysylltu ymhellach pan fydd manylion ar gael ar gyfer Camau 5 a 6."

Cyflwynir cynllun sy'n dangos llwybr cam 5 a cham 6 fel llinell goch solet o Fryn Hyfryd i Rodfa'r Gypreswydden ac ardal ffin y sir, ynghyd â'r orsaf drenau newydd arfaethedig (yn amodol ar ganiatâd cynllunio), ar ochr dde'r sleid. Dangosir cyswllt â datblygiadau Rhodfa'r Gypreswydden a Llwybr RhBC 88 hefyd ar y cynllun fel llinell

doredig lelog a llinell doredig felen yn y drefn honno. Dangosir allwedd sy'n cynrychioli hyn.

Mae saeth eglurhaol o dan y cynllun yn dangos y cyfeirir at gamau 5 a 6 ar sleid 8.

## Sleid 9

Is-deitl: *"Parcio"*

Mae'r testun ar ochr dde'r sleid yn darllen: "Rydym yn datblygu'r ddarpariaeth parcio ar draws y ddinas a bydd y cynllun hwn yn rhan o'r cynllun cynhwysfawr hwnnw. Mae'r darpariaethau'n cynnwys mynd i'r afael â pharcio ar y stryd gan gymudwyr, a all rwystro llif traffig a chreu anawsterau i rai trigolion neu fusnesau lleol.

*Mewn rhai ardaloedd ar hyd y llwybr, bydd parthau parcio'n cael eu cyflwyno.*

*Mae'r cynllun i'r chwith yn cyflwyno gwahanol barthau parcio. Mae'r rhain yn ardaloedd lle bydd parcio'n cael ei reoli ar adegau penodol a bydd parcio ar y stryd yn cael ei reoli gyda mannau parcio.*

*Mae'r coridor trafnidiaeth hwn yn mynd drwy barth parcio wedi ei reoli arfaethedig.*

*Bydd y cynigion parcio hyn yn destun ymgynghoriad ar wahân fel rhan o broses Gorchymyn Rheoli Traffig."*

Dangosir cynllun ar ochr chwith y sleid, yn dangos y barth parcio wedi ei reoli arfaethedig. Dangosir y llwybr arfaethedig ar hyd Boulevard De Nantes, Plas Dumfries a Heol Casnewydd a Heol Lydan fel llinell doredig. Mae'r un wybodaeth hon wedi'i dangos yn yr allwedd.

O dan y cynllun, mae blwch testun yn darllen: *"Mae gwybodaeth am barcio ar gael ar wefan y Cyngor, **Parcio (caerdydd.gov.uk)**. Noder: Mae graddfa'r parth yn ddangosol"*

## Sleid 10

Mae'r testun ar sleid 10 yn darllen: *"Cysylltiadau Newydd - Nod y cynllun ehangach yw cysylltu cymunedau â phrif gyrchfannau ledled y ddinas. Mae hyn yn cynnwys Canol y Ddinas, yn ogystal ag o ffin y Sir tua'r dwyrain, gan wella seilwaith bysiau a mynediad diogel at deithio llesol i ac o safleoedd cyflogaeth, ardaloedd preswyl, canolfannau addysg a chyrchfannau i ymwelwyr yn y Ddinas.*

*Mae **Papur Gwyn Trafnidiaeth** Cyngor Caerdydd yn darparu gwybodaeth am ein dyheadau trafnidiaeth. Mae hefyd yn cynnwys ein dyheadau beicffordd sy'n darparu llwybrau synhwyrol y gellir eu defnyddio'n gyfforddus, wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau modur a cherddwyr lle bo angen.*

*Bydd Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2 yn cynnig cysylltiad teithio llesol allweddol o Ganol y Ddinas i Ddwyrain Caerdydd a thu hwnt megis i Gasnewydd. Bydd cyfleoedd hefyd ar gael i gysylltu â llwybrau beicio eraill a gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o'r prosiect.*

*Aer Glân - Mae gennym Gynllun Aer Glân sy'n ceisio mynd i'r afael â lefelau NO2 yn y tymor byr, ond rydym eisiau glanhau'r aer rydym yn ei anadlu yn y ddinas gymaint*

*â phosibl. Mae hyn yn rhan o'n gweledigaeth ar gyfer Dinas Carbon Niwtral erbyn 2030, fel y nodir yn yr ymateb strategol **Caerdydd Un Blaned**.*

*Teithio Llesol ac Iechyd - Mae nifer y bobl sy'n beicio ac yn cymudo ar drên wedi cynyddu, ond nid yw'n ddigon. Mae gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer teithio llesol yn y ddinas. Mae'r feicffordd ddiogel ar wahân hon yn cyfrannu at yr uchelgais teithio llesol hwn.*

*Yn ôl **Mynegai Cerdded a Beicio Sustrans 2023**, mae cerdded yng Nghaerdydd yn atal 564 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn a beicio'n atal 181. Mae hyn yn arbed £7.1 miliwn a £2.4 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghaerdydd yn y drefn honno."*

Dangosir darn eglurhaol o Fynegai Cerdded a Beicio Sustrans 2023 ar ochr dde isaf y sleid. Mae hyn yn dangos darlun o geir ac adeiladau. Mae'r testun yn un o'r ddau focs uwchben y darlun yn darllen: *"Mae 15,000 o deithiau beicio dwyffordd yn cael eu gwneud bob dydd yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car."* Mae'r testun nesaf ar y darlun yn darllen: *"Pe bai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig byddai'n estyn am 44 milltir, sy'n cyfateb i'r pellter o Gaerdydd i Abertawe".*

## Sleid 11

Is-deitl: *"Beicffyrdd dros dro a pharhaol"*

Mae'r testun pwynt bwled ar ochr chwith uchaf y sleid yn darllen:

- *"Gweithredwyd nifer o feicffyrdd dros dro tua'r un adeg â phandemig COVID-19 oherwydd roedd capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.*
- *Er mwyn hwyluso a galluogi mwy o deithiau llesol, mae beicffyrdd diogel dros dro a pharhaol yn cael eu lleoli ar hyd llwybrau strategol yn y ddinas. Ein nod yw gwneud pob llwybr yn barhaol.*
- *Rydym wedi bod yn datblygu llwybrau beicio mwy modern dros y 5 mlynedd diwethaf ac rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o adborth ac ymgysylltu cyffredinol.*
- *Ar hyd y llwybr hwn gweithredwyd llwybr beicio dros dro ar Boulevard De Nantes a Heol Casnewydd. Mae'r llwybr hwn bellach yn cael ei wneud yn barhaol.*

Is-deitl: *"Mae enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cynnwys:"*

Mae'r testun pwynt bwled pellach ar ochr chwith uchaf y sleid yn darllen:

- *"Mae angen gwella beicio, ond nid ar draul dulliau cynaliadwy eraill, fel bysiau.*
- *Dylai isadeiledd, fel safleoedd bysiau, gyfrif am anghenion yr holl ddefnyddwyr.*
- *Dylid newid llwybrau beicio dros dro i fesurau parhaol.*
- *Defnyddio dull cyfannol o ymgysylltu a cheisio barn gan bob grŵp yn gynnar."*

Ar draws gwaelod y sleid mae pedwar llun o wahanol feicffyrdd yng Nghaerdydd. O ochr chwith y sleid i'r dde maent yn dangos y canlynol: 1. Teras Cathays gyda ffordd osgoi safle bws a chroesfan sebra ar y feicffordd, 2. Boulevard De Nantes gyda beicffordd ag arwyneb glas, 4. Heol Senghennydd gydag arwyneb glas, a 4. Teras Cathays yn dangos gerddi glaw ac arwydd parth parcio wrth ymyl y feicffordd.

## **Sleid 12**

Teitl sleid: *"Cwestiynau Cyffredin"*

Mae'r uchod hefyd yn cael ei ailadrodd ar sleid 13 lle mae'r Cwestiynau Cyffredin yn parhau.

Mae'r testun a ddangosir ar sleid 12 a 13 ar ffurf rhestr gyda chwestiwn mewn testun bras ac yna'r ateb. Mae'r testun cwestiynau ac atebion ar sleid 12 yn darllen:

*"Beth yw pwrpas y ddogfen hon? Crëwyd y ddogfen hon i hysbysu'r cyhoedd o aliniad y llwybr ar lefel uchel ac i ddarparu cyd-destun ehangach y prosiect. Mae gwahanol gamau'r coridor cludiant a llwybr beicio hwn yn dal i gael eu datblygu, gan ddefnyddio modelu ac opsiynau dylunio, ac ymgynghorir ar bob 'cam' ar wahân yn y dyfodol."*

*"Nid yw'r wybodaeth yn ddigon manwl, sut alla i wneud sylwadau? Mae'r cyngor wrthi'n datblygu ac yn profi opsiynau. Byddwn yn ymgynghori ar y camau unigol wrth iddynt gael eu datblygu i gam cynllunio cysyniad ymarferol, ar ddyddiad diweddarach. Nid ydym yn gofyn am sylwadau ar y llwybr ehangach, ond byddwn yn adolygu unrhyw adborth perthnasol a dderbynnir i lywio'r cynllun."*

*"Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio a bysiau? Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella safleoedd bysiau, llwybrau bysiau a beicffyrdd yn hanfodol i'r cynllun hwn. Bydd y newidiadau a gynigir yn gwella seilwaith bysiau, gan arwain at amseroedd teithio mwy dibynadwy, a gwasanaethau amlach o ansawdd gwell. Mae'r cyngor am ddarparu darpariaeth beicio ar draws y ddinas, gan gynnwys parcio mewn lleoliadau cyfleus. Os ydych chi'n teimlo nad oes digon o le i barcio beiciau ger eich gweithle, neu mewn mannau rydych chi'n ymweld â nhw'n rheolaidd, cysylltwch â ni trwy brif wefan y cyngor."*

*"Sut olwg fydd ar y feicffordd barhaol hon? Bydd y beicffyrdd ar hyd coridor Heol Casnewydd yn ddeugyfeiriadol (lle mae beicwyr yn teithio i'r ddau gyfeiriad ar un ochr o'r ffordd) a gellir naill ai eu darparu ar lefel uwch neu eu gwahanu o draffig cerbydau. Mae llwybrau beiciau ar wahân yn cael eu gwahanu oddi wrth draffig modur gan gwrbyn, ac mae llwybrau beicio ar lefel uwch yn cael eu codi uwchben y lôn gerbydau ac yn cael eu gwahanu gan gwrbyn, gyda chwrbyn pellach rhwng y lôn feicio a'r droedffordd. Bydd ardaloedd a rennir yn cael eu defnyddio lle mae cyfyngiadau priffyrdd ac nad oes opsiwn arall ar gael. Bydd lonydd bysiau yn cael eu darparu ynghyd â safleoedd bysiau gwell ar hyd y coridor."*

*"Beth yw Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru? Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC), dan arweiniad yr Arglwydd Burns, yn 2019 i ystyried y problemau a'r cyfleoedd ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd*

*cerbydau ar draffordd yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru.  Canfu'r Comisiwn nad oes gan bobl yn y rhanbarth ddewisiadau eraill o ran trafnidiaeth heblaw'r draffordd ac nad yw'r rhwydweithiau rheilffordd, bws, beicio a cherdded presennol yn gwasanaethu'r ystod o deithiau a wneir. Mae'r Comisiwn yn argymell 'Rhwydwaith o Ddewisiadau Eraill' i wella tagfeydd yr M4 mewn modd cynaliadwy. Gellir dod o hyd i'r adroddiad argymhellion terfynol ar wefan llyw.cymru. Mae canfyddiadau SEWTC wedi dod i'w hadnabod fel 'argymhellion Burns' sy'n cynnwys gwella'r coridor bysiau a theithio llesol rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Mae holl argymhellion SEWTC yn cael eu datblygu gan* ***Uned Cyflawni Burns*** *o fewn Trafnidiaeth Cymru."*

## Sleid 13

Teitl sleid: "Cwestiynau Cyffredin (Parhad)"

Mae testun a thema sleid 12 yn parhau ar y sleid hon, sleid 13, ac yn darllen:

*"Sut bydd y llwybr bysiau'n cysylltu â Chanol y Ddinas a Chyfnewidfa Fysiau Caerdydd? Bydd y llwybr arfaethedig yn defnyddio'r seilwaith bysiau presennol yng nghanol y ddinas i gysylltu â'r gyfnewidfa fysiau a'r orsaf drenau. Gweler tudalen 4."*

*"A fydd llai o leoedd parcio ar hyd y llwybr, ac a fydd yn rhaid i mi dalu am barcio? Bydd mesurau rheoli parcio yn cael eu datblygu ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau a byddant yn cyd-fynd â'r cynllun parcio cynhwysfawr i'r ddinas gyfan. Mewn gwahanol ardaloedd yn y ddinas, mae'r cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau i barcio ar sail parthau. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn galluogi mwy o barcio i breswylwyr a pharcio aros cyfyngedig rheoleiddiedig. Mae'r rhain yn lleihau parcio i gymudwyr ac yn gwella cyfleoedd parcio i fusnesau a phreswylwyr. Mae'n bosib y bydd rhai parthau'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cynllun beicffordd neu ar wahân iddo er mwyn mynd i'r afael â materion lleol a gallant gynnwys parcio Talu ac Aros (gweler tudalen 9). Mae mwy o wybodaeth am barthau parcio ar gael ar* ***wefan y Cyngor****."*

*"Beth am barcio i fusnesau?  Rydym yn annog pawb i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, fel trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, i leihau allyriadau cerbydau a gwella ansawdd aer. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd angen cyflwyno system talu am barcio fel bod gyrwyr sydd angen parcio am fwy na 2 awr yn gallu gwneud hynny. Nid yw deiliaid trwyddedau fel arfer wedi'u heithrio rhag cyfyngiadau talu ac aros i sicrhau bod y mannau hyn ar gael i ymwelwyr a siopwyr."*

*"Beth yw WelTAG?  WelTAG yw'r broses 'Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru' a ddefnyddir i helpu i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth. Mae'n helpu i ddatrys problemau cynllunio, mireinio'r opsiynau sy'n cael eu hystyried, a sicrhau bod cynigion yn gwella bywydau pobl yng Nghymru.  Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd wrth i bob adran a chysylltiadau â beicffyrdd eraill y llwybr gael eu datblygu."*

*"Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith?  Gwneir newidiadau sylweddol i Ganol y Ddinas a'r Ddinas yn gyffredinol yn y dyfodol, yn enwedig o ran hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy. Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysiau a Choridorau Clyfar i reoli llif*

*traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i:* ***www.caerdydd.gov.uk*** *neu* ***Papur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)***"

*"Sut alla i wneud sylwadau? Dydyn ni ddim yn ymgynghori na'n gofyn am safbwyntiau ar y llwybr ehangach. Fodd bynnag, byddwn ni'n ymgynghori ar bob cam penodol o'r llwybr. Mae pob cam yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith ar opsiynau modelu'r rhwydwaith. Byddwn ni'n ymgynghori ar bob cam penodol fesul cam wrth iddynt gael eu datblygu."*

**Mae'r sleidiau'n gorffen yma.**